# Gweithgaredd Dysgu - Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o chwech am Paul Robeson ar gyfer CA3.

Gadewch i Paul Robeson Ganu!
Bywyd Cynnar Robeson
Paul Robeson: Addysg
Paul Robeson: Dinesydd Byd-eang
Paul Robeson: Llwyfan a Sgrin
**Robeson yng Nghymru**

## Robeson yng Nghymru

By South Wales Miners Library

## Cyflwyniad


**Pa gysylltiadau sydd rhwng Paul Robeson yr Americanwr Affricanaidd a Chymru?**

Mae'r uned hon yn cefnogi ymchwiliadau i berson o bwys o'r ugeinfed ganrif a oedd yn ffigur rhyngwladol ond a oedd â chysylltiadau â Chymru.

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Sut gwnaeth Robeson ei gysylltiadau â Chymru?
2. Y Cyfnewid Traws-Iwerydd ym Mhorthcawl, 1957
3. Yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy yn 1958

## 1. Sut gwnaeth Robeson ei gysylltiadau â Chymru?


WELSH NATIONAL MEMORIAL MEETING

to the Men of the International Brigade from Wales who gave their lives in defence of Democracy in Spain


★

THE PAVILION, MOUNTAIN ASH
December 7th, 1938

★

PROGRAMME - TWOPENCE

*Rhaglen y Cyfarfod Coffa Cenedlaethol, 1938*



*Proud Valley,1940*

Mewn teyrnged can mlwyddiant i Paul Robeson a gynhaliwyd yn Efrog Newydd, yn Neuadd Carnegie, yn 1998, gwnaeth yr actorion Whoopi Goldberg ac Ossie Davies ddwyn stori i gof am gyswllt cyntaf Robeson â'r Cymry yn Llundain:

*"Un diwrnod yn ystod gaeaf caled 1929, pan oedd diweithdra a thlodi enbyd yn bla yn Ynysoedd Prydain, roedd e ar ei ffordd i ddigwyddiad gala pan glywodd e sain gyfoethog côr o lowyr o Gymru. Roedd e wedi croesi llwybr grŵp o lowyr o Dde Cymru a oedd yn cerdded ar hyd y stryd ar y pafin ac yn canu am arian i'w cynnal eu hunain. Roedd un o'r arwyddion oedd ganddyn nhw'n dweud eu bod nhw wedi cerdded o Gymru i ddeisebu'r llywodraeth am gymorth.*

*Heb oedi, ymunodd Paul â'r grŵp o lowyr yn canu, gan gerdded y strydoedd gyda nhw dan hymian. Pan gyrhaeddon nhw un o'r adeiladau mawr ynghanol y dref, dringodd Paul y grisiau blaen a chanu i'w ffrindiau newydd - 'Ol' Man River', baladau poblogaidd a chaneuon ysbrydol. I'r rhai oedd yno, roedd yn brofiad bythgofiadwy.*

*Yn ddiweddarach, fe drefnodd ddigon o gyfraniadau i roi taith yn ôl iddyn nhw ar drên nwyddau a oedd yn cynnwys llond cerbyd o fwyd a dillad i lowyr Cwm Rhondda a'u teuluoedd. Y flwyddyn honno cyfrannodd elw un o'i gyngherddau i Gronfa Gymorth Glowyr Cymru ac ymwelodd â Chwm Rhondda yn bersonol i ganu i'r gymuned fwyngloddio ac i siarad â'r bobl."*


**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

[Rhaglen y Cyfarfod Coffa Cenedlaethol, 1938](#)
[Proud Valley,1940](#)

## 2. Y Cyfnewid Traws-Iwerydd ym Mhorthcawl, 1957



*Eisteddfod y Glowyr, Porthcawl, 1957*




*Clawr record y Cyfnewid Traws-Iwerydd, Porthcawl*

Technoleg newydd y cyfnod oedd y gallu i ddefnyddio'r ffôn ar gyfer galwadau ar draws Môr Iwerydd rhwng Prydain ac Unol Daleithiau America.

I drechu'r gwaharddiad pasbort ar Paul Robeson trefnwyd galwad ffôn rhwng Porthcawl yn Eisteddfod Flynyddol y Glowyr ac Efrog Newydd.

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

**Eisteddfod y Glowyr, Porthcawl, 1957**
**Clawr record y Cyfnewid Traws-Iwerydd, Porthcawl**

## 3. Yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy yn 1958



*Yr Eisteddfod, Glyn Ebwy, 1958*



*National Eisteddfod Ebbw Vale with A Bevan, 1958*

Ym mis Gorffennaf 1958 cafodd Paul Robeson a'i wraig Eslanda eu pasbortau yn ôl. Cafodd y Robesons groeso rhyfeddol ym Mhrydain a ledled Ewrop.

Rhwng mis Medi a Rhagfyr 1958 cynhaliodd Robeson gyfres brysur o gyngherddau o Glasgow i Gaerwysg (Exeter), Bradford i Belfast. Yng Nghymru perfformiodd ym Mhorthcawl (5 Hydref), Caerdydd (4 Tachwedd) ac Abertawe (23 Tachwedd).

Cafodd Robeson ei wahodd i ganu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy yn 1958.

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

[Yr Eisteddfod, Glyn Ebwy, 1958]